ROWLAND, DANIEL (1713-1790), clerigwr Methodistaidd

Enw: Daniel Rowland
Dyddiad geni: 1713
Dyddiad marw: 1790
Priod: Elinor Rowland (née Davies)
Plentyn: Nathaniel Rowland
Plentyn: John Rowland
Rhiant: Janet Rowland (née Thomas)
Rhiant: Daniel Rowland
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1713 ym Mhantybeudy, Nantgwnlle, Sir Aberteifi, mab Daniel a Janet Rowland - ei dad yn dal bywoliaeth Nantgwnlle a Llangeitho. Addysgwyd ef, medd traddodiad, yn ysgol ramadeg Henffordd. Cafodd urdd diacon yn 1734, ac urdd offeiriad yn 1735; bu'n gurad i John, ei frawd, yn y plwyfi uchod. Priododd, 1734, Eleanor Davies, Caerllugest. Cafodd brofiad ysbrydol dwys dan weinidogaeth Griffith Jones, c. 1735, a dechreuodd bregethu gyda nerth gan daranu uwchben y bobl. Lliniarodd ei arddull ar gyngor Philip Pugh, gan bregethu gras yn lle'r ddeddf. Dechreuodd deithio dros y wlad; cyfarfu â Howel Harris yn 1737, a chyn hir ymunodd y ddau ynghyd ag eraill i hyrwyddo'r deffroad mawr Methodistaidd yng Nghymru. Bu anghydfod rhyngddo â Harris, a chyhoedodd *Ymddiddan rhwng Methodist Uniawngred ac un Cyfeiliornus* yn ei erbyn yn 1750. Aeth yn rhwyg yn 1752, ac ef bellach oedd arweinydd 'pobl Rowland,' fel y gelwid ei ganlynwyr. Boddodd ei frawd yn Aberystwyth yn 1760, a chafodd mab y diwygiwr fywoliaeth Llangeitho. Bu'n gurad i'w fab am dymor, a chododd gapel at ei wasanaeth ei hun gerllaw eglwys y plwyf. Collodd ei le fel curad c. 1763 am ryw reswm. Apeliodd plwyfolion Nantgwnlle yn ofer am ei gael yn ôl yn 1767. Dewisodd aros hyd y diwedd, gyda'i bobl yn yr ' Eglwys Newydd,' Llangeitho, er cael cynnig bywoliaeth gysurus Trefdraeth, Sir Benfro, yn 1769. Bu farw 16 Hydref 1790, a'i gladdu yn Llangeitho ar 20 Hydref, 'yn 77 oed' meddai rhestr y plwyf.

Pregethwr oedd Daniel Rowland yn anad dim, ac am gyfnod maith gwnaeth Langeitho yn Feca'r Methodistiaid yng Nghymru. Tyrrai'r miloedd yno o bob parth ar Sul y Cymun, a dylanwadodd yn drwm ar ysbryd ei oes. Cyhoeddwyd ei bregethau yn llyfrynnu bychain yn 1739, 1762, 1772 (dwy gyfrol), a 1775. Troswyd rhai ohonynt i'r Saesneg, a'u cyhoeddi yn 1774, 1775, a 1788. Canodd nifer o emynau hefyd ar gyfer y casgliadau cynnar megis *Llwybur Hyffordd i'r Cymru*, 1740, a *Sail, Dibenion, etc.*, 1742. Ceir chwech emyn o'r eiddo yn niwedd *Marw i'r Ddeddf, etc.*, 1743, 19 yn *Hymnau Duwiol, etc.*, 1744, a chyhoeddodd gasgliad bychan o *Hymnau Duwiol* yn 1745. Ei gasgliad olaf oedd *Pum Pregeth ac Amryw o Hymnau*,

1772. Yr oedd yn un o arloeswyr yr emyn Cymraeg cyn dechrau o William Williams ganu. Trosodd rai pethau o'r Saesneg i'r Gymraeg, megis *Y Rhyfel Ysbrydol* (Bunyan), 1744; *Aceldama*, 1759; *Pymtheng Araith* (Wetherall), 1762; a *Camni yn y Coelbren* (Boston), 1769.

Ei fab hynaf oedd

JOHN ROWLAND (1735 - 1815)

Ganwyd 14 Hydref 1735, urddwyd yn ddiacon 1757, ac offeiriad 1758. Ef a gafodd fywoliaeth Llangeitho yn 1760. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1757; ni ddywed Foster iddo raddio (ac y mae'n galw ei dad yn 'John,' ac yn dyddio ei ymaelodi yn 1767); eto priodolir M.A. iddo. Yr oedd yn gurad Eglwys Fair, Amwythig, yn 1761, a churad Clive yn 1783-1810. Gwasnaethodd fel athro yn ysgol Amwythig, 1771-98. Bu farw 28 Tachwedd 1815. Ei wraig oedd Mary, merch y Parch. William Gorsuch, Amwythig. Daeth dau o'u plant yn enwog, sef

WILLIAM GORSUCH ROWLAND (1770 - 1851)

ficer Eglwys Fair, Amwythig, a phrebendari Lichfield.

DANIEL ROWLAND (1778 - 1839)

hynafiaethydd, noddydd y celfau cain, a dyngarwr.

Mab arall iddo oedd Nathaniel Rowland.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

J. Owen, *Hanes bywyd a gweinidogaeth y Parchedig Daniel Rowlands, (gynt o Langeitho), ynghyd a chofiant byr am yr enwogion canlynol, sef William Salesbury, William Morgan, Richard Davies, Richard Parry, Dr. Davies, o Fallwyd, Archddiacon Prys, Rowland Heylin, Syr Thomas Myddleton*, 1839 (arg. Saesneg 1848)

M. Davies, *Cofiant y Parch. Daniel Rowland* (1871)

D. Worthington, *Cofiant y Parch. Daniel Rowland, Llangeitho* (Llanbed 1905)

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 41-70

D. J. Odwyn Jones, *Daniel Rowland, Llangeitho* (Llandysul 1938)

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, vii, 34; xii, 41-72, 111; xiv, 90; xix, 125; xx, 155; xxvi, 36; xxviii, 165; xxix, 33; xxx, 80

Heddiw, iii, 378

Y Cymmrodor, xxii, 62

Archaeologia Cambrensis, xcix, 151

Horsfall-Turner, *Walks and Wanderings in County Cardigan* (1902), 254-7

Oxford Dictionary of National Biography

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i, 167

Episcopal register and *Cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Foster, *Alumni Oxonienses* - noder y pwyntiau y sylwyd arnynt yn yr ysgrif, ond y mae oedran yr ymaelodi, a'r cyswllt ag ysgol Amwythig ac â W. G. Rowland, yn bwrw mai dyma'r dyn sydd ganddo; odid nad gwall argraff yw '1767'

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Daniel Rowland

Gweithiau

Daniel Rowlands, *Ychydig o hymnau yn ychwaneg* (Caerfyrddin 1773)

Daniel Rowlands, Peter Williams, *Pumtheng araith ar amryw destynau* (Caerfyrddin 1762)

Daniel Rowlands, Morris Davies (gol.), *Deuddeg pregeth ar bynciau ymarferol... hefyd cofiant yr awdwr, ynghydag attodiad, yn cynnwys gweddillion amrywiol o'i waith, a marwnadau coffadwriaethol iddo* (Dolgellau 1876)

Sain a Ffilm

Eryn Mant White: Cofio Daniel Rowland Llangeitho

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 168822997

Wikidata: Q3400440

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu